

## Arsyllfa - hidlo syniadau

2019-2020

### Cefndir

- Yn ystod Cyfnod Un y prosiect bu Grŵp Cyngori ar Brosiectau (PAG) Arsyllfa, ar ddiwedd ei ymarferiad asesu dichonoldeb ac ymgysylltiad ehangach gyda rhanddeiliaid, yn trafod ac yn ymchwilio nifer o syniadau cyn cyrraedd argymhelliad Llinyn Dau o 'wobr arloesi' (papur manwl eisoes wedi'i gyflwyno i'r Grŵp Gweithredu Lleol (LAG)).
- Yn dilyn cadarnhad gan WEFO nad oeddent yn teimlo fod modd datblygu ymagwedd o'r fath mae'r papur canlynol yn amlinellu syniadau blaenllaw eraill a drafodwyd yn ystod y broses yn ogystal ag adran i gloi am y camau nesaf.
- Cafodd nifer o syniadau eu diystyru ar y pryd, cafodd eraill eu hychwanegu at weithgaredd prosiectau eraill, a chadwyd rhai fel gwaith cynllun b posibl pe na fyddai modd datblygu'r 'wobr arloesi'.

## Crynodeb o brif bwyntiau'r syniadau

### Cysyniad - Sir Gâr dros Sir Gâr

**Crynodeb o'r syniad** - Mae hyn yn manteisio ar weithgaredd Be Nesa Llŷn a oedd â'r bwriad o dynnu 11 o bobl fusnes lleol yn ardal Llŷn at ei gilydd a oedd yn teimlo'n gryf y dylai pobl leol allu byw a gweithio yn yr ardal. Penderfynasant greu cronfa fenthyciadau gyda'u cyllid eu hunain, i gynnig benthyciadau i unigolion a grwpiau sy'n bwriadu dechrau busnes newydd, menter gymunedol neu sydd am ehangu eu busnes presennol.

**Ffynhonnell ymchwil** - Byddai Cronfa Fferm Wynt Orllewinol Coedwig Brechfa yn ffynhonnell gyllido dda ar gyfer y cysyniad hwn gydag aelodau PAG Arsyllfa yn gallu defnyddio eu cysylltiadau busnes presennol i annog buddsoddiad cychwynol:

- Arloesi Gwynedd - Be Nesa Llŷn

**Camau nesaf Arsyllfa** - PAG yn teimlo y gellid creu cronfa i roi cychwyn egniol i weithgaredd o fewn llinell amser y prosiect gydag ymagwedd 'gwobr arloesi'. Pe byddai ymagwedd o'r fath yn cael ei wrthod gan LAG / WEFO yna dylid gweithio i ddatblygu cynllun posib i'w weithredu 2021-22.

+++++

## **Cysyniad - Noddi gradd feistr ôl-raddedig bwrpasol mewn busnes**

**Crynodeb o'r syniad** - Y syniad yma yw ariannu'n llawn am flwyddyn radd ymchwil meistr ôl-raddedig mewn busnes a rheolaeth, gan ganolbwyntio ar feithrin entrepreneuriaeth yn Sir Gaerfyrddin. Byddai gofyn i'r ymchwil ystyried y cryfderau a'r gwendidau yn Sir Gaerfyrddin a byddai'r traethawd hir yn ystyried dulliau cyfredol a newydd o feithrin talent entrepreneuriaid. Prifysgol Abertawe neu Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant fyddai'n darparu'r cyfle ac Arsyllfa yn ei ariannu, gyda chefnogaeth fentora ychwanegol gan Arsyllfa. Cafodd gweithgaredd o'r fath ei dreialu ac mae'n llwyddiannus yn yr ardal gyda chwmnïau megis RWE Innogy (cafwyd trafodaethau gydag ymgynghorydd RWE).

**Ffynhonnell ymchwil** - Mae modd i nifer o sefydliadau posib fod yn bartner ar gyfer gwaith o'r fath pe byddent yn gymwys i dderbyn costau'n uniongyrchol drwy LEADER neu pe byddai angen partneriaeth breifat ychwanegol:

- **Prifysgol Abertawe**
- **Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

**Camau nesaf Arsyllfa** - PAG yn teimlo y gallai problemau fod gyda'r ymagwedd hon o ran ariannu gan yr UE er bod rhinwedd mewn datblygu'r syniad gyda mwy o bartneriaid sector preifat os yn ymarferol.

+++++

## **Cysyniad - Rhwydwaith cymunedau arloesi**

**Crynodeb o'r syniad** - Cymuned ar-lein, wedi'i chydlyn gan Arsyllfa, o unigolion a chwmnïau ledled Sir Gaerfyrddin (a Chymru wledig ehangach) sy'n dod at ei gilydd unwaith y mis (efallai am gyfnod treialu o chwe mis i ddechrau) i glywed siaradwyr ysbrydoledig ac / neu i rannu syniadau. Nod y gymuned fyddai rhwydweithio, cynnig mentora cymar wrth gymar, rhannu syniadau, a dod o hyd i gyfleoedd i gydweithio. Byddai modd cael nifer o gymunedau (yn debyg i gystyrau bwyd a diod) wedi'u seilio ar sectorau gwahanol: gwallt a harddwch, bwyd a lletygarwch, ffermio a garddwriaeth, adeiladu ac adeiladwaith, cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus, dillad - manwerthu a gweithgynhyrchu (ac ati).

Efallai y byddai angen cyfyngu'r niferoedd yn y 'gymuned' i 10 neu lai, er mwyn i bawb gael cyfle i gyfrannu. Neu gallai'r grŵp fod yn gronfa fwy a heb ei rhannu fesul sector penodol.

**Ffynhonnell ymchwil** - Mae'n werth nodi fod gan sectorau megis 'gwallt a harddwch' nifer o rwydweithiau o'r math hwn ac mae'r sector ei hun yn werth mwy na hedfanaeth a chynhyrchu ceir gyda'i gilydd:

- **British Beauty Council - The Value of Beauty**
- **Cymru Wledig - amser wynebu'r her**

**Camau nesaf Arsyllfa** - Gan ychwanegu at ganfyddiadau OB3 mai'r hyn oedd ei angen oedd mwy o rwydweithiau, daeth datblygu ymagwedd o'r fath yn fwy cymhleth yn 2020 yn sgil Covid-19 a dyddiad cau'r prosiect. Er hynny, byddai modd datblygu dull digidol drwy ychwanegu at yr e-ganolfan a ddatblygwyd yn ogystal â'r platfformau cymdeithasol eraill.

+++++

### **Cysyniad - Cefnogi astudiaeth ôl-raddedig**

**Crynodeb o'r syniad** - Noddi myfyriwr, sydd â'i gartref/chartref yn Sir Gaerfyrddin, ond sydd efallai'n astudio yn rhywle arall yng Nghymru neu'r DU, i ymgymryd ag astudiaeth ôl-raddedig mewn rheoli busnes a chysiau perthynol. Byddai modd darparu cyllid i helpu gyda'r astudiaeth a/neu'r costau cynnal, gan y byddai traethawd hir y myfyriwr yn canolbwyntio ar feithrin entrepreneuriaeth yn Sir Gaerfyrddin. Byddai modd hysbysebu'r cyfle yn lleol yn barod ar gyfer myfyrwyr yn dechrau astudiaeth ôl-raddedig yn 2021. Yn rhan o'u cais, byddai'n rhaid i fyfyrwyr ddarparu tystiolaeth gan y sefydliad y maent yn astudio ynddo fod pwnc y traethawd hir yn dderbyniol ganddynt.

**Ffynhonnell ymchwil** - Mae'n werth nodi fod ymchwil Arloesi Gwledig (NESTA) a adolygwyd gan y tîm wedi canfod fod ardaloedd â chysylltiadau agos gyda'r sector prifysgolion yn dueddol o fod yn fwy llwyddiannus, felly mae'n bwysig i sefydlu'r cysylltiadau hyn gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac Abertawe (sydd ag ysgol fusnes ardderchog). Gallai ymchwil pellach gynnwys cynllun Santander

- **Santander Universities Emerging Entrepreneurs Programme**
- **Santander Universities Entrepreneurship Awards**

**Camau nesaf Arsyllfa** - PAG yn teimlo y gallai problemau fod gyda'r ymagwedd hon o ran ariannu gan yr UE er bod rhinwedd mewn datblygu'r syniad gyda mwy o bartneriaid sector preifat os yn ymarferol.

+++++

### **Cysyniad - Her Menter a Chyflogadwyedd - Bagloriaeth Cymru**

**Crynodeb o'r syniad** - Rhoddir cyllid i ysgolion er mwyn galluogi grwpiau o fyfyrwyr i ddatblygu syniad busnes a'i weithredu. Gallai'r ymarfer gael ei gysylltu ag astudiaethau Bagloriaeth y myfyrwyr ac efallai y byddai'n well ei gyfyngu i'r chweched dosbarth (er bod grwpiau blynyddoedd iau yn astudio'r Bagloriaeth erbyn hyn). Gallai'r cyllid fod tua £100/y grŵp, hyd at uchafswm o 10 grŵp i bob chweched dosbarth yn ysgolion Sir Gaerfyrddin. Gellid rhoi unrhyw elw i elusennau lleol o ddewis y grŵp.

**Ffynhonnell ymchwil** - Ffordd syml o gael disgyblion ysgol Sir Gaerfyrddin i ddechrau ymddiddori mewn gweithgaredd busnes ac entrepreneuriaid

- **Bagloriaeth Cymru - Tystysgrif Her Sgiliau**

**Camau nesaf Arsyllfa** - PAG yn teimlo y byddai syniad o'r fath yn fodd o ysbrydoli cynulleidfa iau mewn entrepreneuriaeth, er hynny roedd rhai yn poeni efallai y gallai ddyblygu darpariaeth sydd eisoes ar gael (ni ellid darganfod oedd y ddarpariaeth honno'n effeithiol ai peidio).

+++++

## Cysyniad - Targeddu grwpiau penodol o entrepreneuriaid posibl

**Crynodeb o'r syniad** - Y syniad yma yw canfod grwpiau demograffig penodol a'u targedu gyda chyllid/cefnogaeth. Gallai hyn fod ar ffurf gwobr mini-arloesi - dyweder £1,000 - a byddai modd cyrraedd y grwpiau drwy sefydliadau sydd eisoes yn canolbwyntio arnynt. Felly, er enghraifft, pe byddem yn targedu menywod, gallem bartneru gyda Merched y Wawr a Sefydliad y Merched. Rhwystr mawr sy'n cael ei nodi am fenywod yn entrepreneuriaid yw darpariaeth gofal plant ac felly byddai'n fuddiol o bosib i gael golwg ar gefnogaeth gofal plant pwrpasol i alluogi menywod gyda phlant i fwrw ymlaen â'u syniadau busnes.

**Ffynhonnell ymchwil** - Mae'n werth nodi yma yr ymchwil Arloesi Gwledig (NESTA) a gafodd ei adolygu gan y tîm a ganfu'r canlynol: *'Mae'r awduron yn dod i rai casgliadau diddorol wrth nodi'r ffordd ymlaen ar gyfer arloesi gwledig, yn enwedig yr angen i ganolbwyntio ymdrechion ar annog entrepreneuriaid benywaidd, a hyd yn oed feithrin sgiliau entrepreneuriaid pobl hŷn.'*

**Camau nesaf Arsyllfa** - PAG yn teimlo y byddai 'gwobr arloesi' yn cyrraedd pob grŵp o'r fath o'i marchnata'n gywir. Gellid ymgymryd â gweithgaredd hyrwyddo neu allgymorth ychwanegol, sut bynnag, gallai targedu helaeth fygwth dyblygu darpariaeth sydd eisoes ar gael fel yr amlinellir yn astudiaeth cwmpasu OB3.

+++++

## Cysyniad - Cefnogaeth benodol i syniad busnes, yn deillio o argyfwng Covid-19 ac a ddatblygwyd yn ystod y pandemig, sydd â'r potensial i fod yn berthnasol dros y tymor canolig i'r tymor hir.

**Crynodeb o'r syniad** - Yn ystod Covid-19, roedd unigolion, gweithwyr, cyflogwyr a chwmnïau'n gwneud pethau'n wahanol. Gwnaethant newid eu harferion personol neu fusnes er mwyn addasu i'r 'normal newydd'. Mae'r syniad hwn ynglŷn â dod o hyd i ymddygiad sydd wedi newid a syniadau newydd a ddaeth yn sgil Covid-19, a ddatblygwyd (a gyda gwerth ariannol), ond sydd ag arwyddocâd y tu hwnt i fyd â Covid-19 ynddo, neu yn y 'normal newydd'.

Ymhlith y rhain mae bwyta a newidiodd o rai bwyta i mewn i rai tecawê - beth wnaethant yn wahanol yr hoffent efallai ymgorffori yn eu harferion normal, ôl-bandemig (symud gwasanaethau ar-lein, ar apiau, rhoi blychau rysetiau at ei gilydd yn hytrach na phrydau wedi'u coginio ac ati). Neu, gallai sefydliadau fod yn eu plith sydd am estyn llaw i bobl sy'n agored i niwed, sefydliadau a wirfoddolodd eu gwasanaeth i gyflenwi parseli bwyd, neu i gadw cwmni â phobl unig (trwy gadw pellter cymdeithasol) - oes modd yn awr i ehangu hyn yn fusnes?

**Ffynhonnell ymchwil** - Mae cyswllt uniongyrchol rhwng y cysyniad hwn a Covid-19 a'i ganlyniadau ac mae'n dilyn gwaith diweddar gan dîm Arsyllfa:

- Ymateb polisi gwledig Covid-19
- Arloesi mewn argyfwng

**Camau nesaf Arsyllfa** - Er y gallai'r 'wobr arloesi' fod wedi hwyluso hyn, mae'n bosibl mai'r camau nesaf yn yr agenda hon fydd astudiaeth gwmpasu atodol gan gwmni ymchwil, yn tynnu sylw at arloesi o'r fath i gael astudiaeth achos ar e-ganolfan Arsyllfa, yn ogystal â chyfrannu i strategaeth ddatblygu economaidd ehangach Cyngor Sir Gâr yn dilyn Covid-19.

+++++

### **Cysyniad - Astudiaethau Lle Dwfn yn arwain at 'Glymblaid Newid' mewn trefi**

**Crynodeb o'r syniad** - Gan fanteisio ar y gwaith lle dwfn a wnaed yn Llanymddyfri, gallai Arsyllfa gynnig arian hadau a chynghor i drefi eraill ymgymryd ag ymchwil o'r fath, gyda'r bwriad o sefydlu llinell sylfaen o weithgaredd economaidd sy'n bodoli a darpariaeth y sector cyhoeddus, asesiad o 'ble'r hoffai'r dref fod', a chamau ymarferol i wireddu'r amcanion maent am eu cyrraedd. Efallai y gellid gofyn i fusnesau lleol, neu'r cynghor cymuned, i gyfrannu'n ariannol neu ar ffurf rhoddion (e.e. trwy gynnig i reoli'r prosiect).

**Ffynhonnell ymchwil** - Mae hyn yn dilyn gwaith asesu dichonoldeb:

- **Astudiaeth Lle Dwfn Llanymddyfri**
- **Trefi Sir Gaerfyrddin**

**Camau nesaf Arsyllfa** - Gwaith ymchwil ychwanegol / astudiaeth ddichonoldeb i'w wneud gyda Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, yn dilyn trafodaethau adeiladol gyda nhw.

+++++

### **Cysyniad - Creu melin drafod i feithrin newid tymor hir**

**Crynodeb o'r syniad** - Mae hanfod tymor byr unrhyw brosiect LEADER o reidrwydd yn golygu nad yw'n gallu ysgogi newid i'r graddau sydd ei angen ar gyfer effaith tymor hir. Rhaid i feddylfryd y prosiect felly ymestyn y tu hwnt i linell amser ychydig o flynyddoedd yn unig, ac yn hytrach adeiladu seiliau prosiect/corff tymor hwy a fydd yn dal ei dir ac yn gallu dilyn ei weithgaredd i'r pen.

**Ffynhonnell ymchwil** - Dangosodd nifer o drafodaethau a gynhaliwyd rhwng rhanddeiliaid a'r PAG, yn ogystal ag adroddiadau ymchwil a ddadansoddwyd, yn glir mai'r modd i lwyddo yn y pen draw yw trwy bryniant allanol tymor canolig i dymor hir gan bartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat fel ei gilydd. Mae model melin drafod fel y Sefydliad Materion Cymreig yn enghraifft ardderchog o'r modd y mae'r ymagwedd hon wedi cael effaith dros y tymor hir.

**Camau nesaf Arsyllfa** - Y prosiect i ystyried y modd y gall Arsyllfa ddatblygu i fod yn felin drafod hunan-gynaledig tymor hir ar gyfer y Gymru wledig a fydd naill ai'n darparu ffordd i (a) ysgogi newid ei hun drwy syniadau polisi a dod â phartneriaid newydd at ei gilydd, neu (b) annog sefydliadau eraill i ymgasglu o gwmpas agenda datblygu gwledig ac entrepreneuriaeth rhag ofn iddynt gael eu hanghiofio yn y drafodaeth gyhoeddus am y materion hyn.

+++++

### **Cysyniad - Entrepreneuriaeth dechnoleg - cysylltu'r cymdeithasol graff â'r cymdeithasol swil**

**Crynodeb o'r syniad** - Daeth technoleg i'r adwy yn ystod argyfwng Covid-19, gan helpu i gyflymu dulliau newydd o weithio a hwyluso newid mewn ymddygiad. Mae technoleg arloesol i'w weld yn amlwg ymhob busnes ac nid oes modd ei gyfyngu mewn blwch bach twt ar ben ei hun, serch hynny mae lle i annog entrepreneuriaeth dechnoleg yn uniongyrchol, yn gysylltiedig â galw ehangach Arsyllfa am arloesi. Yn y mwyafrif o achosion, mae busnesau angen help i fanteisio ar arloesi digidol, pa un ai'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol, datblygu lle ar y we, neu arfer

Deallusrwydd Artiffisial wrth weithgynhyrchu neu gyflenwi gwasanaeth. Fel rheol, mae pobl iau yn dueddol o fod yn fwy cymdeithasol graff, ac felly byddai'r cysyniad hwn yn eu cysylltu â busnesau newydd neu rai wedi hen sefydlu er mwyn eu hannog i fynd ar-lein a manteisio i'r eithaf ar yr effeithlonrwydd a'r manteision sydd gan arloesi digidol i'w gynnig. Efallai gellid gwneud hyn drwy ysgolion, prifysgolion, neu grwpiau ieuenctid lleol.

**Ffynhonnell ymchwil** - Wedi'i seilio ar nifer o bapurau ymchwil ac erthyglau, yn cynnwys:

- **Cymorth busnes gwledig doethach**
- **Syniadau gweithdai gwledig**
- **Arloesi digidol**

**Camau nesaf Arsyllfa** - Gweithio gyda phartneriaid megis CFFI a'r Urdd i greu cyswllt rhwng y sefydliadau hyn sy'n seiliedig ar aelodau a chyflogwyr arloesol.

+++++

### **Cysyniad - Marchnad y bobl hŷn**

**Crynodeb o'r syniad** - Yn debyg i ardaloedd gwledig yn gyffredinol, mae poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn ymgodemu â'r heriau o gynnal poblogaeth sy'n heneiddio. Nid oes raid i hyn ymwneud â 'her' yn unig, a dylid annog entrepreneuriaid i ystyried hyn yn hytrach yn gyfle. Gellid rhoi gwerth ariannol ar wasanaethau a gynigir yn wirfoddol ar hyn o bryd (mae gan lawer o bobl hŷn lawer mwy o incwm gwario na phobl ifanc), ond yn bwysicach, dylid annog entrepreneuriaid i ystyried nwyddau a gwasanaethau sy'n bodloni anghenion poblogaeth hŷn sy'n tyfu - o gymhorthion meddygol arloesol, i wasanaethau o ddydd i ddydd, i ddulliau i fynd i'r afael â themlo'n ynysig ac unig, ffitrwydd ac ymarfer corff, gwallt a harddwch, cynnal a chadw tai, pryd ar glud, ac ati. Gallai Arsyllfa gomisiynu astudiaeth yn adolygu pob sector y mae pobl hŷn yn defnyddio i gael nwyddau a gwasanaethau a chanfod y bylchau. Neu, gallai Arsyllfa annog entrepreneuriaid presennol a rhai newydd i gynnig syniadau ymarferol.

**Ffynhonnell ymchwil** - Edrych yn benodol ar yr henoed a'r cyfleoedd sy'n bodoli i feithrin entrepreneuriaeth i elwa ar y 'bunt lwyd':

- **Consumer trends - grey pound**
- **Gwersi gan fframwaith polisi gwledig byd-eang**

**Camau nesaf Arsyllfa** - Gwaith cwmpasu ychwanegol neu astudiaeth ddichonoldeb gyda grwpiau sy'n ymwneud â'r 'bunt lwyd' yn ogystal â grwpiau henoed.

+++++

### **Cysyniad - Creu e-ganolfan ar gyfer Sir Gaerfyrddin wledig**

**Crynodeb o'r syniad** - Creu e-ganolfan i feithrin agenda datblygu economaidd gwledig yn ogystal ag entrepreneuriaeth ehangach ledled y Gymru wledig (gan ddenu arferion gorau o rannau eraill o Gymru a hefyd o wledydd eraill). Byddai ymagwedd o'r fath yn broses barhaus gan ddechrau drwy greu e-ganolfan cyn croesawu blogiau gwadd a gwybodaeth ymchwil ehangach. Yn ogystal, mae modd adeiladu ar y gwaith hwn ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol megis cyfrif Twitter a thudalen LinkedIn/Facebook. Un posibilrwydd fyddai dyblygu cysyniad 'Yr Awr Gymraeg' ar gyfer busnesau, gweithwyr llawrydd, contractwyr Sir Gaerfyrddin er mwyn iddynt rannu eu cynigion, manylion busnes ac ati ar amser penodedig, bob wythnos.

**Ffynhonnell ymchwil** - Mae nifer o ardaloedd gwledig wedi datblygu e-ganolfan dros y blynyddoedd i roi ymchwil perthnasol ar led ac i rannu arferion gorau.

**Camau nesaf Arsyllfa** - Datblygu presenoldeb gwell ar-lein a fyddai'n canolbwyntio ar nifer o themâu allweddol - ymhlith awgrymiadau'r PAG mae awtomatiaeth; yr iaith Gymraeg; arloesi ac entrepreneuriaeth.

+++++

### **Cysyniad - Sefydlu rhwydwaith gwledig**

**Crynodeb o'r syniad** - Ystyried datblygu un rhwydwaith gwledig i ganolbwyntio ar faterion sy'n wynebu datblygu economaidd gwledig ledled Cymru. Bydd hyn yn cynorthwyo dau bartner allweddol (e.e. Antur Teifi) mewn ymagwedd fwy strategol, tymor hir tuag at gydweithredu a symud yr agenda yn ei blaen.

**Ffynhonnell ymchwil** - Cafodd nifer o ymgynghoriadau a thrafodaethau diweddar eu rhoi ar led yn ddiweddar ynglŷn â'r modd y gall datblygu economaidd a meithrin cynhyrchiant ac entrepreneuriaeth ddigwydd ar ôl cyllido gan yr UE.

- **Cymru Wledig: Amser Wynebu'r Her 2025**
- **Entrepreneuriaeth yn Sir Gaerfyrddin**

**Camau nesaf Arsyllfa** - Datblygu rhwydwaith gwledig ar gyfer partneriaid allweddol. Er bydd hyn yn edrych ar y Gymru wledig yn ei chyfanrwydd bydd yn denu arferion gorau o ardaloedd eraill. Bydd hefyd yn hwyluso rhai elfennau o ganfyddiadau astudiaeth gwmpasu OB3.

+++++

### **Cysyniad - Absenoldeb arloesi**

**Crynodeb o'r syniad** - Yn cydweithio â'r awdurdod lleol, bydd cysyniad 'absenoldeb arloesi' yn ceisio datblygu cyfleoedd newydd, cyffrous ar gyfer gweithwyr yn y sector cyhoeddus i ddatblygu eu cynllun busnes eu hunain yn ystod oriau gwaith. Mae'r union fethodoleg ac amserlenni i'w cadarnhau, ond bydd y cysyniad arloesi yn neilltuo amser penodol i unigolion yn ystod eu hamserlen waith i ddatblygu'r syniad busnes arloesol dros gyfnod o 16 mis wrth barhau i weithio'n bennaf i'r sector cyhoeddus. Bydd yr ymagwedd hon yn rhoi cyfle i entrepreneuriaid ddechrau profi eu syniadau wrth barhau i weithio. Yn y tymor hir mae gan y cysyniad hwn y cyfle i gryfhau economi'r sir drwy roi i entrepreneuriaid yr amser mae gwir angen arnynt i ddatblygu eu syniad busnes arloesol, newydd.

**Ffynhonnell ymchwil** - Y syniad wedi'i drafod yn rhan o weithgor Arsyllfa. Mae enghreifftiau posibl eraill o gyrff y sector cyhoeddus yn gosod rhaglen debyg, gellid ei ddatblygu'n ehangach mewn gwahanol sectorau hefyd

**Camau nesaf Arsyllfa** - Datblygu rhaglen a fyddai'n gweithio i gyrff unigol a chyrff y sector cyhoeddus fel ei gilydd. Angen mwy o ymchwil.

+++++

### **Cysyniad - Ap Clicio a Chasglu**

**Crynodeb o'r syniad** - Yn debyg i Ap Partneriaeth Tref Aberteifi ond byddai hefyd yn gadael i bobl archebu cynnyrch lleol gan siopau annibynnol, byddai'r ap yn creu dull haws i gefnogi busnesau mewn trefi gwledig gan ddefnyddio un safle i gasglu'r siopa. Er mwyn i'r ap fod yn effeithiol, byddai angen iddo fod yn amlbwrpas ac yn agored ar gyfer pob Stryd Fawr yn Sir Gaerfyrddin (o bosib drwy Gymru) i'w ddefnyddio. Bryd hynny'n unig fyddai defnyddwyr yn manteisio'n llwyr ar yr ymagwedd hon.

**Ffynhonnell ymchwil** - Trafodwyd cysyniad o'r fath yn y gorffennol ac mae rhai trefi ledled Cymru eisoes wedi dechrau datblygu rhaglenni.

- **Trafodaethau gweithdai gwledig**
- **4CG**
- **Cadwyn Ogwen**

**Camau nesaf Arsyllfa** - Trafodaeth gyda Chynghorau Tref ac ymchwil i raglenni tebyg. Er mwyn i ap o'r fath lwyddo, byddai angen cefnogaeth a chyllido ehangach Cymru gyfan.

+++++

### **Cysyniad - Gofal Cymdeithasol Cynaliadwy i'r henoed**

**Crynodeb o'r syniad** - Rhaid i Ofal Cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin gael ei ailystyried, gan ei fod ar hyn o bryd yn anghynaliadwy ar gyfer cymunedau gwledig, lleol. Mae'r gwaith a wnaed gan Gofal Solfach yn fodel posibl y gellid ei ddefnyddio mewn cymunedau yn Sir Gaerfyrddin fel gwasanaeth newydd, arloesol ar gyfer gofal yr henoed. Drwy roi gwasanaethau gofal yn gyntaf ac ymgysylltu'n agos gyda'r holl bartneriaid, mae gan yr awdurdod lleol y potensial o fod y mwyaf blaenllaw yn y byd o ran gofal cymdeithasol gwledig, cynaliadwy gyda chyfleoedd entrepreneuriaidd sgilgyhyrchu niferus yn deillio o'r canolbwynt hwn.

**Ffynhonnell ymchwil** - Mae Gofal Solfach yn Sir Benfro yn cynnal cartref gofal menter gymdeithasol sy'n caffael gwasanaethau a chynnyrch lleol.

- **Gofal Solfach**

**Camau nesaf Arsyllfa** - Ymchwil pellach i ofal cymdeithasol cyfredol yn Sir Gaerfyrddin wledig, gan ystyried hefyd fodolau a dulliau eraill posibl.

+++++



## Diwedd glo

Mae amlinelliad isod o'r camau allweddol nesaf ar gyfer tîm Arsyllfa yn dilyn arweiniad gan y Grŵp Cynghori ar Brosiectau ac yn sgil y ffaith fod WFO wedi cadarnhau na fyddai'n gymwys, yn eu barn hwy, i ddatblygu'r 'wobr arloesi':

1. Ystyried datblygu'r wobwr arloesi ar gyfer lansio ôl-brosiect yn 2021-22 gyda phartneriaid/cyllidwyr ehangach cyn gynted ag y bydd cyfyngiadau'r UE wedi'u codi.
  2. Gosod a meithrin rhwydwaith gwledig ar gyfer partneriaid er mwyn symud yr agenda yn ei blaen mewn partneriaeth ac osgoi dyblygu darpariaeth. Defnyddio'r prosiect i gyfleu cam cyntaf y gwaith hwn gyda'r nod o gynaliadwyedd ôl-brosiect.
  3. Creu e-ganolfan i hyrwyddo gweithgaredd a syniadau ehangach gyda'r bwriad o feithrin entrepreneuriaeth ac arloesi.
  4. Ar ôl ei ddatblygu, cyfleu cam cyntaf cychwynnol yr e-ganolfan i arddangos astudiaethau achos arferion gorau; blogiau; cynnwys.
    - Edrych ar ymchwil arbenigol / astudiaethau dichonoldeb ychwanegol a gomisiynwyd gan drydydd parti i hysbysu partneriaid yn ogystal â strategaeth economaidd ôl-Covid-19 Cyngor Sir Gâr y dyfodol. I gynnwys:
    - **Papur ymchwil 1** - Astudiaeth gwmpasu ar fodolau entrepreneuraidd busnesau newydd ôl-Covid-19 a ddatblygwyd yn ystod Covid-19 ac a allai gynyddu ymhellach yn ystod 2020-21.
    - **Ymchwil 2** - Dyfodol trefi Sir Gaerfyrddin. Effaith debygol Covid-19 a chyfleoedd posibl.
    - **Ymchwil 3** - Ymchwil ehangach pe byddai adnoddau prosiect ar gael, gan gydategu gwahoddiad i dendro 'Cynllun Adfer Datblygiad Economaidd ar gyfer Cyngor Sir Gâr' a gyhoeddwyd yn ddiweddar.
-